

UNDEB Bedyddwyr Cymru

PECYN CANLLAWIAU AR Y
RHEOLIAD DIOGELU DATA
CYFFREDINOL



EICH PECYN CANLLAWIAU AR Y RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL

Cynnwys

1. **"Beth sy'n digwydd, a pham y mae'n bwysig" – Trosolwg cyffredinol o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r goblygiadau i eglwysi**
2. **"Yr hyn y mae angen i'ch eglwys ei wneud" – Cynllun Gweithredu ar gyfer Eglwysi**
3. **Archwiliad Data Enghreifftiol ar gyfer Eglwysi**
4. **Cyngor cyffredinol ynghylch:**
 - Cyhoeddi adroddiadau blynyddol
 - Cofnodion Eglwysi
 - Cofnodion Bugeiliol
 - Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a Diogelu
 - Manylion y Gweithwyr
 - Ymholiadau ynghylch Manylion Cyswllt
 - Cyfathrebu ag Aelodau Eglwysi
 - Cyfathrebu â'r rhai nad ydynt yn aelodau a'r gymuned ehangach
 - Cyfathrebu trwy'r e-bost
 - Gwefannau Eglwysi a'r Cyfryngau Cymdeithasol
 - Cylchgronau a Chylchlythyrau Eglwysi
5. **Dogfennau Defnyddiol**
 - 5a. Polisi Diogelu Data Enghreifftiol ar gyfer Eglwysi (Templed)
 - 5b. Hysbysiad Preifatrwydd Enghreifftiol ar gyfer Eglwysi (Templed)
 - 5c. Ffurflen Cydsyniad Enghreifftiol ar gyfer Eglwysi mewn perthynas â Chasglu Data (Templed)
6. **Rhestr Wirio ar gyfer Eglwysi o ran y GDPR**
7. **Nodiadau ynghylch y GDPR**
8. **Atodiad 1 – Enghreifftiau o Adroddiadau Blynyddol Eglwys**

Noder: Cynigir y nodiadau hyn fel arweiniad sylfaenol ac nid ydynt yn cymryd lle cyngor proffesiynol cyfreithiol manwl. Cyfrifoldeb pob eglwys unigol yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau diogelu data. Nid yw Undeb Bedyddwyr Cymru yn medru derbyn cyfrifoldeb dros drefniadau diogelu data pob un eglwys unigol.

1. BETH SY'N DIGWYDD, A PHAM Y MAE'N BWYSIG?

Ar 25 Mai 2018, cyflwynir y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn lle'r gyfraith gyfredol ar ddiogelu data. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn cynnal ac yn gorfodi hawliau'r unigolyn o ran ei wybodaeth personol. Mae gan bob sefydliad, gan gynnwys eglwysi, rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â hi.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi ychydig o wybodaeth gyffredinol i chi am y GDPR, ynghyd â'r hyn y mae angen i'ch eglwys ei wneud i gydymffurfio ag ef. Rydym hefyd wedi cynnwys nifer o ddogfennau templed, y gall eich eglwys fynd ati i'w haddasu a'u mabwysiadu. Fodd bynnag, cofiwch mai cyfrifoldeb pob eglwys unigol yw cydgyssylltu ei hymateb ei hun a sicrhau ei bod yn gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

Termau Defnyddiol

Data personol – gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw, y gellir ei adnabod yn uniongyrchol o'r data hynny, neu'n anuniongyrchol trwy gyfeirio at ddata eraill a gedwir.

Prosesu – unrhyw beth a wneir â data personol/i ddata personol, gan gynnwys eu storio a'u defnyddio.

Gwrthrych y data – yr unigolyn y mae'r data personol sy'n cael eu prosesu yn ymwneud ag ef

Y rheolydd data – yr unigolyn, neu grŵp o unigolion, sy'n gyfrifol am brosesu'r data personol.

Beth yw'r GDPR?

Bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn dod i rym yn y DU ym mis Mai 2018. Fe'i cyflwynir yn lle'r Ddeddf Diogelu Data 1998 gyfredol, ac mae'n rhoi mwy o ddiogelwch a gwell hawliau i unigolion o ran y modd y caiff eu data personol eu defnyddio gan sefydliadau. Mae'r GDPR yn seiliedig ar nifer o egwyddorion pwysig, a amlinellir isod.

Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder	Rhaid i ddata personol gael eu prosesu mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw mewn perthynas â gwrthrych y data.
Cyfyngiadau o ran diben	Rhaid i ddata personol gael eu casglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon, a pheidio â chael eu prosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
Lleihau data	Rhaid i ddata personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y cânt eu prosesu ar eu cyfer.
Cywirdeb	Rhaid i ddata personol fod yn gywir, a, lle bo angen, rhaid iddynt gael eu diweddarau.
Cyfyngiadau o ran storio	Ni ddylid cadw data personol ar ffurf sy'n caniatáu i wrthrychau'r data gael eu hadnabod am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol ar gyfer y dibenion y caiff y data personol eu prosesu ar eu cyfer.
Cywirdeb a chyfrinachedd	Rhaid i ddata personol gael eu prosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data hynny, gan gynnwys eu diogelu rhag cael eu prosesu'n anghyfreithlon neu heb awdurdod, neu rhag cael eu difrodi, eu difa, neu eu colli yn ddamweiniol, a hynny gan ddefnyddio mesurau sefydliadol neu dechnegol priodol
Atebolrwydd	Bydd y rheolydd data yn gyfrifol am gydymffurfio â'r GDPR, ac am amlygu'r gydymffurfiaeth honno.

Beth yw Data Personol a Data Personol Arbennig?

Fel y nodir uchod, mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw, y gellir ei adnabod yn uniongyrchol o'r data hynny, neu'n anuniongyrchol trwy gyfeirio at ddata eraill a gedwir. Er bod pob math o wybodaeth personol yn "ddata personol", ystyrir bod elfennau penodol yn hynod sensitif, ac, felly, fod angen eu diogelu ymhellach. Gelwir y data hyn yn "Ddata Personol Arbennig", ac mae'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol am unigolyn: tarddiad hiliol neu ethnig; barn wleidyddol; credoau crefyddol neu debyg (e.e. athronyddol); aelodaeth o undeb llafur; iechyd (gan gynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd); data genetig; data biometrig; bywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol.

Bydd faint o ddata personol a data personol arbennig a gedwir yn amrywio o eglwys i eglwys. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o eglwys yn cadw ychydig o ddata personol/ddata personol arbennig, o leiaf. Gall hyn gynnwys gwybodaeth tebyg i fanylion cyswllt yr aelodau, cofrestrau aelodaeth, cofrestrau cysegru a bedyddio, gwybodaeth diogelu, cofnodion bugeiliol, manylion banc a Rhodd Gymorth, manylion cyflogaeth y gweinidogion, ac ati.

Ar Bwy y Mae Hyn yn Effeithio?

Nod y GDPR yw diogelu pob unigolyn byw a'i fanylion personol. Mae gan bob sefydliad sy'n cadw data personol, gan gynnwys eglwys, rwyngedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio ag ef.

Sut y Mae Hyn yn Effeithio ar Eich Eglwys Chi?

Mae'r GDPR hefyd yn cyflwyno atebolrwydd cryfach ar gyfer y Rheolydd Data – y sawl sy'n gyfrifol am ymdrin â data personol, a'u defnyddio. Fel Rheolyddion Data, mae eglwys yn atebol am y data personol y maent yn eu prosesu, ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio ag egwyddorion GDPR. Dylai eglwys hefyd allu dangos eu hymdrechion i sicrhau cydymffurfiaeth trwy ddarparu tystiolaeth o'r camau a gymerwyd mewn perthynas â'r GDPR. Fel y nodwyd, diben y pecyn hwn yw helpu eglwys Undeb Bedyddwyr Cymru i gydgyssylltu a rheoli eu hymateb. Rydym yn awgrymu bod pob eglwys yn neilltuo amser i astudio'r canllawiau hyn, a'i bod yn dilyn y camau a amlinellir yn yr adran, "Yr Hyn y Mae Angen i'ch Eglwys ei Wneud".

Rhesymau dros Brosesu Data Personol

Mae'n hanfodol bod eglwys yn cadw data personol penodol, er enghraifft enwau, manylion cyswllt, cofnodion bugeiliol, ac yn eu defnyddio i gyflawni gwaith yr eglwys. Er nad yw'r GDPR yn eich gwahardd rhag storio a defnyddio data personol, ei nod yw atgyfnerthu'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r modd y caiff data eu casglu, eu storio a'u defnyddio, ynghyd â'r rhesymau dros wneud hynny.

Wrth ymdrin â data personol, bydd angen i chi fod yn glir ynghylch eich sail gyfreithiol dros brosesu'r data hynny. Mae yna nifer o resymau cyfreithiol dros brosesu data, gan gynnwys:

1. **Rhwngedigaeth Gyfreithiol** (e.e. prosesu Rhodd Gymorth neu wybodaeth Diogelu.)
2. **Contract** (e.e. gosod neuadd yr eglwys/y festri i unigolion a grwpiau.)
3. **Diddordeb Cyfreithlon** (gweinyddiaeth reolaidd yr eglwys, er enghraifft cyhoeddi cofrestrau aelodaeth i'w defnyddio'n fewnol, rotâu, nodiadau bugeiliol, ac ati.)
4. **Cydsyniad** (Os nad oes gennych reswm cyfreithiol, cytundebol neu gyfreithlon dros gadw neu ddefnyddio data personol, yna bydd angen i chi gael cydsyniad yr unigolyn dan sylw i ddefnyddio ei ddata. Dylid cael cydsyniad mewn modd eglur, a dylai gael ei gofnodi'n briodol a'i ddiweddarw fel y bo angen. Dylid rhoi gwybod i unigolion am y weithdrefn ar gyfer tynnu cydsyniad yn ôl.)

2. YR HYN Y MAE ANGEN I'CH EGLWYS EI WNEUD

Cynnal cyfarfod i drafod ymateb eich eglwys

Rydym yn awgrymu bod swyddogion yr eglwys yn darllen y canllawiau hyn ac yn cynnal cyfarfod i drafod ymateb yr eglwys. Efallai y bydd yr eglwys yn dymuno ystyried penodi swyddog unigol, neu grŵp o swyddogion, i oruchwylio'r GDPR yn yr eglwys. Dylai'r unigolyn/grŵp o unigolion hwn fod yn brif gyswllt ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â'r GDPR, a bydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth barhaus yr eglwys. Dylid nodi enw a manylion cyswllt yr unigolyn/unigolion ym Mholisi Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd yr eglwys, yn ôl y gofyn.

Fel yr eglurwyd, diben y pecyn canllawiau hwn yw eich helpu i drefnu eich ymateb i'r GDPR. Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau angenrheidiol y dylai eglwysi eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Yn ychwanegol at y cyngor, rydym hefyd wedi cynnwys adran nodiadau a rhestr wirio yng nghefn y llyfryn hwn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn awgrymu bod yr eglwys yn cadw cofnod o'r cyfarfodydd, y trafodaethau a'r camau a gymerir mewn perthynas â'r GDPR. Bydd hyn yn sicrhau bod cofnod ysgrifenedig ar gael i ddangos bod eich eglwys wedi cymryd y camau priodol, os bydd cwyn.

Mabwysiadu Polisi Diogelu Data

Dylai eich eglwys fabwysiadu Polisi Diogelu Data sy'n cadarnhau egwyddorion ac arferion yr eglwys mewn perthynas â phrosesu data personol. Mae yna Bolisi Diogelu Data enghreifftiol yn rhan o'r pecyn hwn, y gellir ei addasu a'i fabwysiadu (gweler dogfen 5a).

Mae'n bwysig bod pob unigolyn sy'n ymwneud â gweinyddiaeth eich eglwys (e.e. swyddogion, diaconiaid, ymddiriedolwyr) yn cael copi o'r ddogfen hon, ac yn ymgysgu â'i chynnwys. Dylai'r holl ddata gael eu prosesu yn unol â'r egwyddorion a amlinellir ym Mholisi Diogelu Data yr Eglwys.

Mabwysiadu ac arddangos Hysbysiad Preifatrwydd Data

Yn ychwanegol at y Polisi Diogelu Data, dylai eich eglwys hefyd fabwysiadu Hysbysiad Preifatrwydd Data. Mae Hysbysiad Preifatrwydd Data enghreifftiol ar gael yn rhan o'r pecyn hwn (gweler dogfen 5b). Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffyrdd yr ydych yn prosesu (e.e. casglu, defnyddio, rheoli a datgelu) yr holl ddata personol a gedwir gennych. Dylai'r Hysbysiad Preifatrwydd Data hwn gael ei arddangos yn gyhoeddus (e.e. ar hysbysfwrdd yr eglwys a gwefan yr eglwys), a'i ddarparu ar gais.

Cwblhau Archwiliad Data

Rydym yn cynghori y dylai pob eglwys gynnal Archwiliad Data i adolygu'r data a gedwir. Dylai'r archwiliad hwn ystyried y cwestiynau canlynol:

- Pa ddata personol a gedwir?
- Pam y mae'r data personol yn cael eu cadw?
- Ar ba sail y caiff y data personol eu cadw? (rheswm cyfreithiol, cytundebol, cyfreithlon neu gydsyniad penodol)
- Pwy sy'n gyfrifol am brosesu'r data personol?
- Pa gamau y mae angen eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r GDPR?

Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio'r tabl Archwiliad Data, sydd wedi'i ddarparu ar dudalen 6.

Camau Gweithredu Pellach

Ar ôl mabwysiadu eich Polisi Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd, a chwblhau eich Archwiliad Data, dylech fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.

Efallai y bydd y pwyntiau hyn yn cynnwys mesurau ymarferol, er enghraifft:

- Defnyddio cyfrinair i ddiogelu dyfeisiau electronig a dogfennau unigol
- Sicrhau bod yr holl waith papur yn cael eu storio'n briodol mewn cypyrddau dan glo
- Gofyn am ganiatâd penodol i gyhoeddi data personol (gweler y cyngor ar adroddiadau blynyddol, cylchgronau'r eglwys)
- Os oes angen, cysylltu ag unigolion i ofyn am/ddiweddaru caniatâd i gadw eu manylion diweddaraf ac i gysylltu â nhw ynghylch materion yr eglwys, ac ati.

Ymdrin â Cheisiadau a Chŵynion

Mae gan bob unigolyn yr ydych yn cadw data personol ar ei gyfer hawl gyfreithiol i ofyn am gopi o'r data personol a gedwir gennych, ynghyd â gwybodaeth am y modd y caiff y data hyn eu prosesu. Yr enw ar hyn yw Cais Gwrthrych am Wybodaeth (SAR). Fel Rheolydd Data, mae gan yr eglwys rwymedigaeth gyfreithiol i ymateb i gais o'r fath cyn pen un mis. Dylai Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth gael eu cyfeirio at yr unigolyn/grŵp a benodwyd i oruchwylio'r GDPR, a'u prosesu yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd eich eglwys. Er ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth, cofiwch fod yna rai amgylchiadau lle y gallai fod yn briodol gwrthod datgelu data, (e.e. pan fo materion yn ymwneud â diogelu). Rydym yn awgrymu bod yr unigolyn/unigolion a benodir yn edrych ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu'n ffonio'r llinell gymorth yn uniongyrchol, i gael rhagor o gyngor, fel y bo angen.

Mae'n bwysig cofio bod gan unigolion yr hawl i gyflwyno cwyn i'r eglwys, yn rhinwedd ei swydd fel rheolydd data, os nad ymdrinnir â data personol yn gywir. Manylir ar weithdrefn gwyno yr eglwys yn Hysbysiad Preifatrwydd yr eglwys, a dylid ymdrin â hi'n briodol. Os bydd yr unigolyn yn anfodlon, mae ganddo'r hawl i gyfeirio ei gŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Efallai y bydd unrhyw sefydliad sy'n methu â chydymffurfio yn agored i wahanol gosbau, gan gynnwys ymchwiliad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a dirwyon.

Cyfrifoldebau Parhaus

Mae'n bwysig cofio bod Diogelu Data yn rhwymedigaeth barhaus. Pan fyddwch wedi mabwysiadu Polisi Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd eich eglwys, dylech ymdrechu i lynu wrth yr egwyddorion a'r arferion a amlinellir ym mhob agwedd ar fywyd yr eglwys.

Rydym hefyd yn awgrymu eich bod yn cynnal Archwiliad Data blynyddol i sicrhau bod eich eglwys yn gwybod pa ddata sy'n cael eu cadw, ac yn ymwybodol o unrhyw gamau y mae angen eu cymryd er mwyn parhau i gydymffurfio'n llwyr.

Cwestiynau a Phryderon

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyffredinol am y GDPR a'ch eglwys, cysylltwch â Dr Christian Williams yn Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru. Fel arall, gall eglwysi hefyd gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn uniongyrchol. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd. CF10 2HH 02920 2067 8400; e-bost: wales@ico.org.uk

Mae'r gwefannau canlynol hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y GDPR a'i oblygiadau i eglwysi:

- **Gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – ico.org.uk**
- **Gwefan Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr - www.baptist.org.uk/gdpr**

3. ARCHWILIAD DATA EGLWYSI UNDEB BEDYDDWYR CYMRU

Llenwyd gan _____ ar _____ .

Disgrifiad o'r Data	Pam y mae'r data yn cael eu cadw, ac at ba ddiben?	Pwy sy'n cadw'r data, a phwy sydd a mynediad iddo?	A oes gennych gydsyniad angenrheidiol neu reswm cyfreithlon dros gadw'r data hyn?	Pa reolaethau diogelu sydd ar waith?	Pa mor hir y cedwir y data?	Oes angen gweithredu ymhellach?

4.CYNGOR CYFFREDINOL

- **Adroddiadau Blynyddol**

Fel elusen, mae'n ofynnol i bob eglwys lunio adroddiad blynyddol sy'n adolygu sefyllfa ariannol yr eglwys, a hynny yn unol â chyfraith elusennau. Dylai'r adroddiad hwn gael ei archwilio'n briodol, a'i ddosbarthu i holl aelodau'r eglwys. Mewn llawer o eglwysi, mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn cynnwys enwau a chyfraniadau'r holl aelodau. Mewn rhai achosion, mae manylion cyswllt ychwanegol, er enghraifft cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost, hefyd yn cael eu cynnwys.

Er bod yn rhaid i bob eglwys barhau i lunio adroddiad ariannol blynyddol, mae'r ddeddfwriaeth newydd yn golygu bod yn rhaid rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r modd y caiff adroddiadau o'r fath eu cyhoeddi, a pha wybodaeth a roddir ynddynt. Er bod yna reswm cyfreithlon dros gyhoeddi enwau a manylion swyddogion eglwys, er enghraifft y Gweinidog a'r diaconiaid, a hynny at ddibenion gweinyddu, ni ddylai eglwysi dybio mwyach fod aelodau, cyfeillion na chyfranwyr yn barod i'w manylion gael eu cyhoeddi, gan fod yr wybodaeth hon – sy'n ymwneud â chredoau crefyddol yr unigolyn – yn gyfystyr â Data Personol Arbennig.

Felly, rydym yn cynghori bod swyddogion yr eglwys yn trafod y pwnc hwn ac yn ystyried yr opsiynau canlynol. Gweler enghreifftiau o'r opsiynau yn Atodiad 1.

- 1) Cyhoeddi **Adroddiad Ariannol** heb unrhyw wybodaeth bersonol, er enghraifft enwau, cyfeiriadau, manylion cyswllt neu fanylion cyfraniadau unigol. Sylwch y bydd angen i wybodaeth am gyfraniadau ariannol gael ei chadw a'i harchwilio. (Os byddwch yn dymuno dilysu cyfraniadau aelodau unigol, dylech fabwysiadu system gyfrinachol, e.e. rhoi crynodeb cyfrinachol i bob aelod unigol o'i gyfraniad.)
- 2) Mabwysiadu system amgen, er enghraifft **System Rhifau Aelodaeth**, lle caiff pob aelod rif aelodaeth. Defnyddir y rhif aelodaeth unigol yn lle'r enw yn yr adroddiad blynyddol. Mae hyn yn galluogi unigolion i wirio'r swm a gyfrannwyd ond, hefyd, yn sicrhau cyfrinachedd, a hynny ar yr amod nad oes neb heblaw'r aelod unigol a swyddog perthnasol yr eglwys yn ymwybodol o'r manylion personol.
- 3) Ceisio cydsyniad penodol i barhau i gyhoeddi **manyion aelodaeth a chyfraniad llawn**. Os yw'r eglwys yn dymuno parhau i gyhoeddi unrhyw fanylion personol, (e.e. enwau, manylion cyswllt, manylion cyfraniadau blynyddol aelodau), dylid ceisio cydsyniad ysgrifenedig penodol. Dylai'r cydsyniad hwn gael ei storio'n ddiogel yn unol â'ch Polisi Diogelu Data, a'i adnewyddu'n rheolaidd (e.e. bob un i dair blynedd).

Pa ddull cyhoeddi bynnag y bydd yr eglwys yn ei ddewis, mae'n bwysig sicrhau'r cydsyniad priodol, a bod yr aelodau'n ymwybodol o'r union fanylion a fydd yn cael eu cyhoeddi. Pan fydd aelodaeth unigolyn yn dod i ben, ni ddylai manylion personol yr unigolyn hwnnw gael eu cadw na'u cyhoeddi mwyach.

- **Rhoddion a Chymynroddion**

Pan fyddwch yn cael rhodd (e.e. gan ffrind, rhodd gyffredinol neu rodd er cof), dylid ceisio cydsyniad i gyhoeddi enw'r rhoddwr, ynghyd â'r rhodd. Oni cheir cydsyniad, ni ddylid cyhoeddi unrhyw fanylion personol. Fodd bynnag, pan fyddwch yn etifeddu cymynrodd, ni fydd yn ofynnol i chi gael caniatâd i gyhoeddi enw'r rhoddwr, a hynny am nad yw'r GDPR ond yn berthnasol i bobl fyw.

- **Cofnodion yr Eglwys**

Mae gan swyddogion yr eglwys ddiddordeb cyfreithlon i gadw enwau a manylion cyswllt holl aelodau'r eglwys. Dylai holl gofnodion yr eglwys sy'n cynnwys data personol (e.e. enwau, manylion cyswllt, gwybodaeth ariannol) gael eu trin yn unol â'ch Polisi Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd.

- **Cofnodion Bugeiliol**

O ran darparu gofal bugeiliol, ystyrir bod gan y rheiny sydd â chyfrifoldeb bugeiliol (e.e. Gweinidog, diaconiaid, gweithiwr bugeiliol) gyfiawnhad cyfreithlon dros gadw data personol. Dim ond at ddiben darparu gofal bugeiliol y dylid defnyddio'r data hyn, ac ni ddylid eu rhannu ag unrhyw unigolyn na sefydliad arall, oni bai fod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Yn yr un modd â chofnodion yr eglwys, dylai gwybodaeth fugeiliol personol gael ei chadw yn unol â Pholisi Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd eich eglwys.

- **Diogelu**

Cyfrifoldeb swyddogion yr eglwys yw sicrhau bod yr holl wiriadau diogelu perthnasol (gan gynnwys gwiriadau DBS) yn cael eu cwblhau a'u diweddarau yn ôl y gofyn. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol, a dylai gael ei wneud trwy'r Panel Diogelwch Cydenwadol. Dylai'r holl wybodaeth diogelu/DBS gael ei storio a'i defnyddio yn unol â Pholisi Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd eich eglwys. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol.

- **Deiliad Swyddi/Manylion Gweithwyr**

Dylai'r holl wybodaeth am ddeiliaid swyddi/gweithwyr gael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ac ni ddylid ei rhannu â neb, heblaw pan fo hynny'n ofynnol am resymau cyfreithlon eraill. Pan fydd cyflogaeth unigolyn yn dod i ben, ni ddylai'r data personol amdano gael eu cadw am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol yn gyfreithiol/gyfreithlon.

- **Ymholiadau ynghylch Manylion Cyswllt**

Os bydd un o swyddogion yr eglwys yn cael cais am wybodaeth personol, er enghraifft enw, cyfeiriad neu fanylion cyswllt aelod o'r eglwys, dylai'r cais gael ei wrthod. Mewn amgylchiadau o'r fath, rydym yn awgrymu y dylai swyddog yr eglwys gynnig anfon y cais uniongyrchol at yr unigolyn, neu, fel arall, gysylltu â'r unigolyn i ofyn am ganiatâd i rannu ei wybodaeth.

- **Cyfathrebu ag aelodau'r eglwys**

Fel eglwys, mae gennych gyfiawnhad cyfreithlon dros gadw manylion cyswllt yr aelodau at ddibenion yr eglwys. Dylai'r holl ddata personol (e.e. enwau, manylion cyswllt, gwybodaeth ariannol) gael eu trin yn unol â'ch Polisi Diogelu Data a'ch Hysbysiad Preifatrwydd, ac ni ddylent gael eu rhannu y tu allan i'r eglwys. Pan fydd aelodaeth unigolyn o'r eglwys yn dod i ben, dylai'r wybodaeth personol amdano gael ei dinistrio.

- **Cyfathrebu â'r rhai nad ydynt yn aelodau o'r eglwys a'r gymuned ehangach**

Mae'n dderbyniol cadw manylion unigolion nad ydynt yn aelodau, a defnyddio'r manylion hynny, os oes gennych ddiddordeb cyfreithlon i gysylltu â nhw ynghylch gweithgaredd neu wasanaeth, (e.e. er mwyn trefnu gwasanaeth priodas neu angladd, cysylltu â rhiant sy'n mynychu Grŵp Rhieni a Phlant, neu unigolyn sy'n dymuno cael ei gynnwys ar rota blodau yr eglwys). Fodd bynnag, dim ond ar gyfer y diben hwnnw y dylai'r wybodaeth gael ei defnyddio, ac ni ddylid ei rhannu mewn unrhyw ffordd arall.

Os bydd eich eglwys yn dymuno defnyddio manylion cyswllt unigolion nad ydynt yn aelodau i hyrwyddo gwasanaethau a digwyddiadau eraill, rhaid iddi gael eu cydsyniad. Rydym yn awgrymu eich bod yn ceisio cadarnhad bod unigolion yn hapus i chi rannu eu manylion at ddibenion o'r fath. Dylai cydsyniad gael ei gofnodi a'i storio yn unol â Pholisi Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd eich eglwys. Mae ffurflen cydsyniad enghreifftiol ar gyfer data personol wedi'i chynnwys yn rhan o'r pecyn hwn. (Gweler dogfen 5c.)

- **Cyfathrebu trwy'r e-bost**

Mae'n bwysig cofio bod cyfeiriad e-bost personol hefyd yn cael ei ystyried yn wybodaeth bersonol. Wrth anfon negeseuon e-bost, mae'n bwysig cymryd gofal dyladwy i osgoi rhannu cyfeiriadau e-bost personol. Wrth anfon negeseuon e-bost at fwy nag un derbynnydd, dylai'r anfonwr ddefnyddio'r opsiwn BCC, neu anfon negeseuon e-bost unigol, er mwyn atal cyfeiriadau e-bost y derbynwyr eraill rhag cael eu rhannu.

- **Gwefannau a'r Cyfryngau Cymdeithasol**

Ni ddylid cyhoeddi gwybodaeth bersonol ar wefan na'r cyfryngau cymdeithasol heb y cydsyniad perthnasol. Os yw eich gwefan yn prosesu data personol, dylai'r defnyddwyr gael gwybod am hyn pan fyddant yn ymweld â safle.

Mae'r arfer o dynnu lluniau o ddigwyddiadau'r eglwys a recordio gwasanaethau eglwysig yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae llawer o'r delweddau a'r ffilmiau hyn wedyn yn cael eu lanlwytho i wefannau a thudalennau cyfryngau cymdeithasol yr eglwysi. Os bydd eich eglwys yn dymuno tynnu lluniau o wasanaethau neu ddigwyddiadau cyhoeddus, neu eu recordio, dylai roi hysbysiad ar ffurf cyhoeddiad neu boster cyhoeddus, sy'n rhoi gwybod i bobl y bydd lluniau'n cael eu tynnu/recordiadau'n cael eu gwneud, a'u defnyddio. Dylid sicrhau bod yna ddarpariaeth briodol ar gael ar gyfer y rheiny nad ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn lluniau neu recordiadau o'r fath.

- **Cylchgronau a Chylchlythyrau Eglwysi**

Dylai eglwysi wneud pob ymdrech i osgoi cynnwys data personol, er enghraifft enwau, manylion cyswllt, a gwybodaeth am amgylchiadau personol sensitif. Lle bo bwriad i gynnwys gwybodaeth bersonol, dylid cael cydsyniad penodol cyn ei chyhoeddi.

5. DOGFENNAU ENGHREIFFTIOL AR GYFER EGLWYSI UNDEB Bedyddwyr CYMRU

Mae'r adran hon yn cynnwys y dogfennau isod at ddefnydd eich eglwys chi:

- 5a. Polisi Diogelu Data Enghreifftiol ar gyfer Eglwys
- 5b. Hysbysiad Preifatrwydd Enghreifftiol ar gyfer Eglwys
- 5c. Ffurflen Cydsyniad Enghreifftiol ar gyfer Defnyddio Data at ddibenion
Cyfathrebu Cyffredinol

Dylai eglwys fewnosod eu gwybodaeth unigol lle bo angen.

Mae copïau digidol o'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Undeb Bedyddwyr
Cymru – www.buw.org.uk

5a. POLISI DIOGELU DATA ENGHREIFFTIOL AR GYFER EGLWYSI

Mewnosodwch eich gwybodaeth lle bo angen

Polisi Diogelu Data Eglwys Y Bedyddwyr

Datganiad Polisi

Mae Ymddiriedolwyr/Diaconiaid Eglwys y Bedyddwyr _____ wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018.

Rydym wedi penodi _____ (Enw'r Ymddiriedolwr/Diacon/Grŵp o Swyddogion) i oruchwyllo proses Diogelu Data Eglwys y Bedyddwyr _____. Dylai unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â materion Diogelu Data gael eu cyfeirio at _____ (Enw'r Ymddiriedolwr/Diacon/Grŵp o Swyddogion a manylion cyswllt), yn y lle cyntaf.

Mae'r polisi hwn yn pennu'r mesurau yr ydym wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith fel eglwys, ynghyd â'r modd yr ydym yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn seiliedig ar wyth egwyddor, sy'n datgan bod yn rhaid i ddata personol:

- gael eu prosesu mewn modd teg a chyfreithlon
- cael eu casglu at ddibenion penodol a chyfreithlon yn unig
- bod yn ddigonol, yn berthnasol, a pheidio â bod yn ormodol
- bod yn gywir, a chael eu cadw'n gyfredol
- peidio â chael eu cadw am gyfnod mwy na'r angen
- cael eu prosesu yn unol â hawliau gwrthrychau'r data
- cael eu cadw'n ddiogel
- cael eu diogelu'n briodol wrth gael eu trosglwyddo dramor

Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae'r polisi hwn yn bwysig gan ein bod wedi ymrwymo i atal data personol rhag mynd i'r dwylo anghywir o ganlyniad i ddiogelwch gwael, neu rhag cael eu rhannu'n ddiofal neu fod yn anghywir, a hynny am ein bod yn ymwybodol y gallai pobl deimlo'n ofidus neu gael eu niweidio pe byddai unrhyw rai o'r pethau hyn yn digwydd.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth bersonol?

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol ar ran aelodau, gweithwyr a chyfeillion Eglwys y Bedyddwyr _____ ac eraill mewn cysylltiad â gweithgareddau'r eglwys, a hynny ar y sail ganlynol:

1. Rhwymedigaeth Gyfreithiol (e.e. prosesu Rhodd Gymorth neu wybodaeth Diogelu.)
2. Contract (e.e. gosod neuadd yr eglwys i unigolion a grwpiau.)
3. Diddordeb Gyfreithlon (gweinyddiaeth reolaidd yr eglwys, er enghraifft cyhoeddi cofrestrau aelodaeth i'w defnyddio'n fewnol, rotâu, nodiadau bugeiliol, ac ati.)
4. Cydsyniad (Os nad oes gennym reswm cyfreithiol, cytundebol neu gyfreithlon dros gadw neu ddefnyddio data personol, yna byddwn yn gofyn am gydsyniad yr unigolyn dan sylw i brosesu ei ddata.)

Pam yr ydym yn prosesu data personol?

Rydym yn prosesu data personol er mwyn ein helpu i wneud y canlynol:

- Cynnal ein rhestr o aelodau'r eglwys
- Talu cyflog ein Gweinidog
- Darparu cymorth bugeiliol
- Darparu gwasanaethau i'r gymuned
- Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed

(Rhestrwch unrhyw ddibenion eraill.)

Sut y mae egwyddorion diogelu data yn ein harwain?

Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder	Rhaid i ddata personol gael eu prosesu mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw mewn perthynas â gwrthrych y data.
Cyfyngiadau o ran diben	Rhaid i ddata personol gael eu casglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon, a pheidio â chael eu prosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
Lleihau data	Rhaid i ddata personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y cânt eu prosesu ar eu cyfer.
Cywirdeb	Rhaid i ddata personol fod yn gywir, a, lle bo angen, rhaid iddynt gael eu diweddarau.
Cyfyngiadau o ran storio	Ni ddylid cadw data personol ar ffurf sy'n caniatáu i wrthrychau'r data gael eu hadnabod am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol ar gyfer y dibenion y caiff y data personol eu prosesu ar eu cyfer.
Cywirdeb a chyfrinachedd	Rhaid i ddata personol gael eu prosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data hynny, gan gynnwys eu diogelu rhag cael eu prosesu'n anghyfreithlon neu heb awdurdod, neu rhag cael eu difrodi, eu difa, neu eu colli yn ddamweiniol, a hynny gan ddefnyddio mesurau sefydliadol neu dechnegol priodol
Atebolrwydd	Bydd y rheolydd data yn gyfrifol am gydymffurfio â'r GDPR, ac am amlygu'r gydymffurfiaeth honno.

Hysbysiad Preifatrwydd: Yn unol â'r polisi hwn, rydym hefyd wedi mabwysiadu hysbysiad preifatrwydd sy'n pennu pa wybodaeth yr ydym yn ei chadw, sut yr ydym yn storio'r wybodaeth honno, a sut y mae'r wybodaeth honno'n cael ei phrosesu, ynghyd â'r sail gyfreithiol dros wneud hynny.

5b. HYSBYSIAD PREIFATRWYDD ENGHREIFFTIOL AR GYFER EGLWYSI

Mewnosodwch eich gwybodaeth lle bo angen

Hysbysiad Preifatrwydd Eglwys y Bedyddwyr

Cyflwyniad

Ar 25 Mai 2018, daw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd i rym, a fydd, yn ei hanfod, yn rhoi mwy o hawliau i unigolion o ran y ffordd y caiff gwybodaeth ei storio a'i defnyddio gan eglwys, neu gan unrhyw sefydliad. Yn benodol, mae'n ofynnol i ni ddweud wrth aelodau, deiliaid swyddi, gweithwyr a chyfeillion yr eglwys hon pa wybodaeth sydd gennym amdanynt, a sut yr ydym yn ei storio a'i defnyddio.

Ymddiriedolwyr/Diaconiaid Eglwys y Bedyddwyr _____ yw'r rheolyddion data, ac mae _____ yn Ymddiriedolwr/Ddiacon/Swyddog Diogelu Data dynodedig.

1. Pa wybodaeth yr ydym yn ei chadw?

Rhestrwch yr holl wybodaeth yr ydych yn ei chadw, e.e.

Rydym yn cadw enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost ein haelodau.

Rydym yn cadw manylion banc yr aelodau hynny sy'n cyfrannu trwy drosglwyddiad banc.

Rydym yn cadw gwybodaeth mewn perthynas â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed.

(Rhestrwch unrhyw wybodaeth bersonol arall yr ydych yn ei chadw.)

2. Sut yr ydym yn storio eich gwybodaeth?

Mae gwybodaeth ar bapur yn cael ei chadw'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo, ac mae'r allweddï hefyd yn cael eu cadw'n ddiogel.

Mae gwybodaeth electronig yn cael ei diogelu gan gyfrinair a/neu yn cael ei hamgryptio.

3. Sut y byddwn yn prosesu eich data personol?

A. Manylion yr Aelodau: Mae Ymddiriedolwyr/Diaconiaid/Swyddogion yr Eglwys yn cadw manylion cyswllt (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost) ar gyfer yr Aelodau, er mwyn:

- cadw mewn cysylltiad â chi (e.e. anfon cylchlythyr atoch)
- rhoi gwybod i chi am wasanaethau, digwyddiadau a chyfarfodydd, cyrsiau, hyfforddiant
- darparu cymorth bugeiliol
- dosbarthu ceisiadau am weddi
- gofyn am gymorth gennych gyda'r gwaith o gynnal yr eglwys (e.e. rotâu)
- gweinyddu cofnodion aelodau, gan gynnwys prosesu Rhodd Gymorth
- cyfeirio atoch yn ein cylchlythyr, e.e. yn achos dathliad, salwch

(Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ychwanegwch fel bo angen.)

Pa mor hir y byddant yn cael eu cadw?

Bydd yr wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chadw am gyhyd ag y byddwch yn aelod o Eglwys y Bedyddwyr _____. Fodd bynnag, bydd Datganiadau Rhodd Gymorth yn cael eu cadw am hyd at chwe blynedd ar ôl y flwyddyn galendr y maent yn berthnasol iddi. Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â chofrestrau cysegriadau/cofrestrau priodasau yn cael ei chadw'n barhaol.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu'r data hyn?

Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon, gan gynnwys unrhyw ddata personol sensitif (sy'n cynnwys cred/ymlyniad crefyddol unigolyn) ar y seiliau canlynol:

1. Rhwymedigaeth Gyfreithiol (e.e. prosesu Rhodd Gymorth neu wybodaeth Diogelu)
2. Contract (e.e. gosod neuadd yr eglwys i unigolion a grwpiau)
3. Diddordeb Cyfreithlon (gweinyddiaeth reolaidd yr eglwys, er enghraifft cyhoeddi cofrestrau aelodaeth i'w defnyddio'n fewnol, rotâu, nodiadau bugeiliol, ac ati)
4. Cydsyniad: byddwn yn sicrhau eich cydsyniad ysgrifenedig mewn modd eglur, ac yn ei gofnodi'n briodol a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.

B. Cyfeillion yr Eglwys: Mae Ymddiriedolwyr/Diaconiaid/Swyddogion yr Eglwys yn cadw manylion cyswllt (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost) ar gyfer Cyfeillion yr Eglwys, er mwyn:

- cadw mewn cysylltiad â chi (e.e. anfon cylchlythyr atoch)
- rhoi gwybod i chi am wasanaethau, digwyddiadau a chyfarfodydd, cyrsiau, hyfforddiant, clybiau gwyliau, clybiau cinio

(Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ychwanegwch fel bo angen.)

Pa mor hir y byddant yn cael eu cadw?

Bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw hyd nes y byddwch yn dweud wrthym nad ydych am gael unrhyw gyswllt pellach â ni, ac yn cael ei hadolygu bob dwy flynedd.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu'r data hyn?

Fel Cyfaill yr Eglwys (e.e. rhywun nad yw'n aelod, rhywun sy'n mynychu'r clwb cinio, mamau a phlant bach), dim ond os ydych yn cysylltu'n rheolaidd â ni, neu os ydym wedi sicrhau eich cydsyniad ysgrifenedig, y byddwn yn cadw eich manylion cyswllt. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth â neb arall.

C. Adroddiad Blynnyddol

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Eglwys y Bedyddwyr _____ gyhoeddi Adroddiad Blynnyddol. Dim ond i Aelodau ac i Gorfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru (os yw'n gweithredu fel Ymddiriedolwr ar gyfer Eglwys y Bedyddwyr _____ y caiff copïau o'r Adroddiad Blynnyddol eu dosbarthu.

Dim ond os byddwn wedi cael cydsyniad ysgrifenedig y byddwn yn cyhoeddi'r manylion personol canlynol _____ (*rhowch fanylion*) yn yr Adroddiad Blynnyddol. Bydd cais i adnewyddu'r cydsyniad yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd _____ (*rhowch fanylion*).

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu'r data hyn?

Byddwn yn sicrhau eich cydsyniad ysgrifenedig cyn cyhoeddi manylion personol a gwybodaeth sensitif.

D. Cyfeiriadur yr Eglwys

Cyfeiriadur yr Eglwys yw'r prif bwynt cyfeirio ar gyfer aelodau, selogion, a'r rheiny sy'n trefnu'r gwaith o gynnal Eglwys y Bedyddwyr _____, er mwyn dod o hyd i fanylion cyswllt. Mae'r cyfeiriadur hwn ar gael yn eang i Aelodau'r Eglwys a selogion, ac mae copi hefyd yn cael ei gadw yn yr eglwys. Nid ydym yn rhoi copi i neb arall, ond mae ar gael yn eang. Rydym yn gobeithio'n fawr y byddwch yn rhoi eich cydsyniad ysgrifenedig i ni gynnwys eich manylion yn y cyfeiriadur.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu'r data hyn?

Byddwn yn gofyn am eich cydsyniad ysgrifenedig cyn cyhoeddi eich manylion personol.

E. Gwybodaeth Diogelu

Mae hyn yn cynnwys geiradaon ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, cydsyniad rhieni, gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng, gwybodaeth feddygol a chysylltiadau meddygol.

Pa mor hir y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw?

Am gyhyd ag y bydd yr unigolyn yn ymwneud â gweithgareddau'r eglwys.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu'r data hyn?

Mae gan yr eglwys rwymedigaeth gyfreithiol i gynnal yr wybodaeth hon, er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau diogelu.

Rhagor o Wybodaeth

Rhannu eich Data Personol

Ni fyddwn yn rhannu eich data personol â thrydydd partïon oni fyddwn wedi sicrhau eich cydsyniad ymlaen llaw, neu oni fydd yn ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanoch. Gallwch ofyn am gopi o'r data personol a gedwir, ynghyd â'r modd y cânt eu prosesu. Mae gennych hefyd yr hawl i ddiweddarau, diwygio a chyfyngu ar eich data personol, neu'r hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl o ran eu prosesu, ynghyd â'r hawl i ddileu eich data yn llwyr. Os byddwch yn dymuno arfer eich hawliau, cysylltwch â _____ (*rhowch enw'r diacon/ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am y gofynion o ran ceisiadau gwrthrych am wybodaeth*).

Gofynion Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth

Bydd ceisiadau am wybodaeth yn cael eu prosesu cyn pen un mis calendr. Dylai'r eglwys fod yn ymwybodol bod yna adegau pan y byddai'n amhriodol ryddhau gwybodaeth. Os cyfyd unrhyw amheuan o'r fath (e.e. o ran diogelu), gellir ceisio cyngor gan y Comisiynydd Gwybodaeth trwy ffonio 0303 123 1113 neu fynd i'r wefan: www.ico.org.uk

Cwynion

Os ydych yn pryderu ynghylch y ffordd yr ymdrinnir â'ch gwybodaeth, yna cysylltwch â (*rhowch enw'r Ymddiriedolwr enwebedig, ynghyd â'i fanylion cyswllt*) yn y lle cyntaf, ac, os byddwch yn dal i fod yn anfodlon ar y canlyniad, gallwch gyfeirio'r mater i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a hynny trwy'r wefan: <https://ico.org.uk/concerns/handling/>, neu trwy ffonio'r llinell gymorth ar 0303 123 1113.

5c. FFURFLEN CYDSYNIAD ENGHREIFFTIOL AR GYFER CASGLU DATA

Ffurflen Cydsyniad ar gyfer Defnyddio Data at ddibenion Cyfathrebu Cyffredinol

Eglwys y Bedyddwyr _____

Yn unol â chyfraith Diogelu Data gyfredol y DU, mae arnom angen eich cydsyniad i gadw a defnyddio data personol, er enghraifft eich enw a'ch manylion cyswllt.

Os ydych yn hapus i'r eglwys gadw eich manylion er mwyn cyfathrebu â chi, llenwch y manylion priodol isod:

Enw _____

Cyfeiriad _____

Rhif Ffôn _____

Cyfeiriad E-bost _____

Ticiwch y blwch priodol er mwyn cadarnhau'r ffyrdd yr ydych yn dymuno i ni ddefnyddio eich gwybodaeth i gysylltu â chi:

Rwy'n cydsynio i'r eglwys uchod gysylltu â mi trwy'r ffyrdd canlynol

☐	Post	☐	Ffôn	☐	E-bost
--------------------------	------	--------------------------	------	--------------------------	--------

er mwyn rhoi gwybod i mi am newyddion, gwasanaethau a digwyddiadau'r eglwys

☐	Ydw	☐	Nac ydw
--------------------------	-----	--------------------------	---------

Llofnodwyd:

Dyddiedig:

Sylwch y bydd yr holl ddata personol yn cael eu prosesu yn unol â Pholisi Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd yr eglwys, sydd ar gael _____

Gellir tynnu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd, a hynny trwy gysylltu â _____

6. RHESTR WIRIO EGLWYSI O RAN Y GDPR

Defnyddiwch y Restr Wirio hon i'ch helpu chi i drefnu eich ymateb i GDPR ac i sicrhau eich bod wedi cymryd y camau angenrheidiol.

<u>RHESTR WIRIO</u>	
A ydych wedi cyfarfod i drafod y GDPR a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch eglwys?	
A ydych wedi penodi swyddog neu dîm i ymdrin â'r GDPR?	
A ydych wedi mabwysiadu Polisi Diogelu Data ar gyfer eich eglwys, ac wedi ymgyswrtio â'i gynnwys?	
A ydych wedi mabwysiadu Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer eich eglwys, ac wedi arddangos yr hysbysiad hwnnw ac ymgyswrtio â'i gynnwys?	
A ydych wedi cynnal Archwiliad Data ar gyfer eich eglwys?	
A ydych wedi mynd i'r afael ag unrhyw faterion?	
A ydych wedi cynllunio ar gyfer ymdrin â Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth, cwynion ac unrhyw hawliau unigol eraill?	

7. NODIADAU YNGHYLCH Y GDPR

8. Atodiad 1

Adroddiadau Blynyddol yr Eglwys

Gweler isod enghreifftiau o'r tri opsiwn a nodir ar dudalen 7.

ADRODDIAD YR EGLWYS 1

Adroddiad ariannol heb unrhyw fanylion personol.

Incwm 2018	Cyfanswm
Cyfraniadau'r Aelodau (Amlenni)	£10,500.00
Casgliad Rhydd	£1,500.00
Rhoddion	£750.00
Rhoddion er cof	£350.00

ADRODDIAD YR EGLWYS 2

Rhifau aelodaeth yn lle enwau'r aelodau.

Rhif aelodaeth	Cyfanswm y Cyfraniadau ar gyfer 2018
1	£250.00
2	£100.00
3	£198.00
4	£50.00

ADRODDIAD YR EGLWYS 3

Rhaid sicrhau cydsyniad penodol i gyhoeddi unrhyw fanylion personol, er enghraifft enw a manylion cyswllt aelod, a gwybodaeth am ei gyfraniadau.

Manylion yr Aelodau	Cyfanswm y Cyfraniadau ar gyfer 2018
Mrs May Jones, 14 Heol y Wern (01268 446233)	£250.00
Mr David Thomas, Bryn (01268 763200)	£100.00
Miss Mair Edwards, 34 Y Stryd Fawr (01973 885723)	£198.00